


ASTUDIAETH ACHOS

# MônFM

Gwasanaeth radio gymunedol o Langefni yw MônFM sy'n gwasanaethu Sir Fôn, Gwynedd, ac ardaloedd eraill yng ngogledd-orllewin Cymru. Yn gynnar yn 2023, roeddent yn cynnal menter darllediad cymunedol sy'n cynnwys darlledu byw o ddigwyddiadau lleol. Erbyn mis Medi 2023, roedd MônFM wedi rhoi sylw i dros 30 digwyddiad yn cynnwys gemau pêl-droed, sioeau amaethyddol, eisteddfodau, gwyliau pentref, ac ati. I wneud hyn, roedd MônFM yn defnyddio fan darlledu allanol oedd yn cysylltu yn ôl â'r stiwdio yn Llangefni.

## Heriau o ddarllediadau allannol

Enwebodd MônFM ddwy her o ran darlledu allanol. Un o'r heriau perthnasol i'r astudiaeth achos hon oedd cael cysylltiad dibynadwy rhwng y fan ddarlledu allanol â'r stiwdio. Mae hyn yn bennaf oherwydd darpariaeth 4G a 5G gwael llawer o'r lleoliadau y maent yn darlledu ohonynt. Ymhellach, mewn digwyddiadau gyda nifer uchel o fynychwyr, gall mastiau 4G lleol fod yn brysur iawn os nad oes gan seilwaith telathrebu'r ardal y capasiti i wasanaethu nifer fawr o ddefnyddwyr.

I ddelio â hyn, ceisiodd MônFM gyswllt aml-lwybr gan ddefnyddio hyd at tri chysylltiad gwahanol gan wahanol ddarparwyr data symudol ar yr un pryd. Fel hyn, pe bai un cysylltiad yn brysur gan or-ddefnydd lleol, byddai MônFM yn defnyddio cysylltiad arall i lwytho'r data yn ôl i'r stiwdio.

Roeddent wedi ffeindio bod defnyddio cysylltiadau symudol lluosog ochr yn ochr wedi bod yn ddefnyddiol, ond nad oedd yn 100% dibynadwy, yn enwedig ar gyfer sylwebaeth chwaraeon byw, er enghraifft.

## Arbrofion Starlink

Cysylltodd MônFM â Menter Môn am gymorth i dreialu Starlink yn eu gweithrediadau gan ei fod yn ddull cadarn a dibynadwy o gysylltu. Noddodd Menter Môn Starlink i'w defnyddio mewn tri digwyddiad, yn Ffair Gêm Cymru, gêm bêl-droed yng Nghaergybi, a'r Anglesey Autofest ym Maes Sioe Fôn.

> Mae Starlink wedi o fudd mawr i MônFM gan ei fod wedi eu galluogi i roi sylw i ddigwyddiadau cymunedol heb boeni am seilwaith telathrebu'r ardal.

Uchelgais Gogledd Cymru Ambition North Wales

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU